

Catchphrase Ysbyty Brynaber - Week 103

Key Language

verbs ending in *-ai*
llyw / lliw
anhygoel o / andros o etc.

New Words

| | |
|----------------------|--|
| sefydlu | to establish |
| siarad trwy dy het | to talk nonsense; literally to talk through your hat |
| gyda llaw | by the way; literally by a hand |
| gwarchod | to babysit |
| shwt fyr rybudd (SW) | such short notice |
| 'ta beth | anyway |
| ffaelu | to be unable to |
| cyfan | everything |
| llaesu dwylo | to idle one's time |
| egni | energy |
| brwdfrydedd | enthusiasm |
| atgoffa | to remind |
| arfer | to use, to be accustomed |
| cyndyn | reluctant |
| Y Cyngor | The Council |
| ffodus | fortunate |
| anhygoel | fantastic |
| gesio | to guess |
| dros ben | exceptionally |
| malio | to care |
| o ddifrif | seriously |
| tu chwith allan | inside out |
| effaith | an effect |
| ar y naw | extremely; literally on the nine |

Rhodri's still sharing his time between both parents, and this is making the child very unhappy, as Agnes points out to Jenny.

Agnes - Does dim newid wedi bod o gwbl. Mae Rhodri yn hala hanner ei amser gyda fi; a hanner ei amser gyda Brian...

Jenny - Ydy o'n hapus efo hynny?

Agnes - Wrth gwrs nad yw e ddim...

Meanwhile Brian gets some very disturbing news from Michelle, who's been rooting through Jac's papers while babysitting Rhodri and Beca.

Michelle - Brian, you've got stiff competition coming your way...'cause Jac's just bought the garage opposite yours.

Main Grammatical Points

Agnes knows that Jac would be furious if news of his new business deal leaked out and says to Michelle:

...Lladdai Jac fi pe byddai'r cyfan yn dod mas

Lladdai is the short form of *Byddai'n lladd*. Both forms mean 'he would kill'.

I'm sure you've noticed that the ending of *lladdai*, or *lladde* in Agnes's dialect, is the same as that of *byddai*.

Other examples are:

gwelai or *byddai'n gweld*, which mean 'would see'
bwytai or *byddai'n bwyta*, which mean 'would eat'
darllennai or *byddai'n darllen*, which mean 'would read'.

So listen out for *lladdai* - 'would kill'.

When Michelle tells Agnes that she hopes Jac's business will be a roaring success...
Agnes replies

Agnes - Gyda Jac wrth y llyw - dw i'n siwr bydd e.

Llyw here is spelt L-L-Y-W and is not to be confused with *lliw*, meaning colour, which is spelt L- L- I -W. *Llyw* with a Y has a number of meanings in Welsh. Some of them are: 'rudder, helm, steering wheel of a car, handle bars of a bike'. Since all these meanings are to do with guiding or directing, it's easy to see how *llyw* can also be used in a figurative sense to mean 'leader or ruler.' So, 'Gyda Jac wrth y llyw' means 'with Jac at the helm'; in other words 'with Jac as manager'. It may interest you to know that Llywelyn, the last native prince of Wales, is referred to as Llywelyn y Llyw Olaf.

When we want to emphasise an adjective in English, we often precede it with an adverb, which ends in -LY. For example, exceptionally good, terribly expensive, awfully late and so on. In Welsh the technique is a little different - 2 adjectives are used and linked by 'o'. When Agnes says that Jac's deal had gone through fantastically quickly, she uses the expression 'anhygoel o glou'.

Agnes - Gwnaeth yr holl beth ddigwydd yn glou iawn - yn dofe?

Jac - Do...

Agnes - Anhygoel o glou a dweud y gwir...

Anhygoel o glou means exceptionally quick

The most frequently used adjectives in this technique are *andros*, *arbennig*, *hynod* and *ofnadwy*.

Listen to some examples:

andros o fawr - exceptionally big
arbennig o dda - extraordinarily good
hynod o ddiddorol - especially interesting
ofnadwy o ddiflas - terribly boring

Catchphrase Ysbyty Brynaber: Episode 306

Agnes meets Michelle in the swimming pool and tells her about Jac's new business venture. But she's not giving anything away yet...

Wendy returns from her mother's in the Rhondda only to be told some bad news by Brian.

Geirfa

| | |
|----------------------|--|
| sefydlu | to establish |
| siarad trwy dy het | to talk nonsense; literally to talk through your hat |
| gyda llaw | by the way; literally by a hand |
| gwarchod | to babysit |
| shwt fyr rybudd (SW) | such short notice |
| ta beth | anyway |
| ffaelu | to be unable to |
| cyfan | everything |
| llaesu dwylo | to idle one's time |

Golygfa 1

Wendy - Iw-hw! Rydyn ni'n ôl...Helo? Brian?

Brian - Wyt ti'n ôl?

Wendy - This very minute...

Brian - Gest ti siwrnai go lew o'r Rhondda yna?

Wendy - O.K. Roedd hi'n bwrw glaw y rhan fwyaf o'r ffordd yn ôl...Anyway, we're back...

Brian - Sut mae dy fam?

Wendy - Doedd yr anjeina attacks ddim mor ddrwg â hynny...I think she over-did it a bit to drag me and the kids down there and get some sympathy...

Brian - O, reit...

Wendy - A sut wyt ti?

Brian - Iawn...

Wendy - Dydw i ddim yn cael cusan ynte? What's up? Rwy'ti'n tense. I can tell...

Brian - Wedi clywed newyddion drwg ydw i...

Wendy - Beth?

Brian - Newyddion drwg iawn hefyd...

Wendy - Wyt ti'n mynd i ddweud wrthyf i ynte?

Brian - Jac.

Wendy - Ie? Beth 'bytu Jac...?

Brian - Dwy'ti ddim yn mynd i gredu hyn...

Wendy - Credu beth? Brian - please don't keep me in suspense! Just tell me what's going on!

Brian - Mae Jac yn mynd i sefydlu busnes.

Wendy - Yeah? Wel? Beth yw'r big deal?

Brian - Mae o'n mynd i agor shop...

Wendy - So what?

Brian - Shop sydd hefyd yn garej...

Wendy - It's not the end of the world...

Brian - Ond wyt ti'n gwybod lle fydd y shop a'r garej yma mae o'n mynd i'w agor?

Wendy - Na - ble?

Brian - Dros y ffordd i fy ngarej i!

Wendy - You're kidding me?

Brian - Na! Dyna mae'r diawl yn mynd i'w wneud!

Wendy - That's terrible! He can't do that!

Brian - Paid â siarad trwy dy het! Wrth gwrs y gall o!

Golygfa 2

Agnes - ...Michelle...Sut ydych chi?

Michelle - 'Bach yn knackered...

Agnes - Ydych chi'n nofio'n rheolaidd?

Michelle - Na...Ond roeddwn i'n teimlo ei bod hi'n bryd i fi ddechrau gwneud rhywbeth i gadw fy hunan yn ffit...

Agnes - A fi. Dw i'n ceisio nofio o leiaf ddwywaith yr wythnos...Diolch am yr wythnos ddiwethaf, gyda llaw...

Michelle - Wythnos ddiwethaf?

Agnes - Ie...Pan ddaethoch chi draw i'r tŷ i warchod Rhodri a Beca...

Michelle - Dim problem...

Agnes - Ond roedd Jac ar fai yn gofyn i chi ar shwt fyr rybudd...

Michelle - Doedd dim ots gyda fi...

Agnes - Ydych chi'n siwr?

Michelle - Roedd noswaith off gyda fi....

Agnes - Roedden ni'n dau yn ddiolchgar iawn i chi, ta beth...

Michelle - Roeddwn i'n meddwl bod Rhodri a Beca yn great kids...Really lovely...

Agnes - Roedden nhw'n hoff ohonoch chi hefyd...Dathlu oedd Jac a fi...

Michelle - So I understood.

Agnes - Mae rhywbeth wedi digwydd...Dw i'n ffaelu dweud beth ar y foment - mae'r cyfan yn top secret..

Michelle - Ydy e nawr?

Agnes - Ydy...Lladdai Jac fi pe byddai'r cyfan yn dod mas...Ond fe ddaw e yn ddigon clou...Ond gallaf i ddweud cymaint â hyn: mae Jac yn bwriadu sefydlu busnes...

Michelle - Ie...Dywedodd e gymaint â hynny wrthyf i yn yr Yacht Club...

Agnes - Mae fe wedi bod yn treal sefydlu busnes ers misoedd.....

Michelle - But everything is now in place?

Agnes - Ydy...

Michelle - Good...

Agnes - Ie...Roedd eisiau rhywbeth arno fe i'w wneud...Roeddwn i'n beco ei fod e'n llaesu dwylo damaid bach...

Michelle - Llaesu dwylo? Beth yw llaesu dwylo?

Agnes - Bod yn idle...

Michelle - Llaesu dwylo? Bydd rhaid i fi gofio hynny.

Agnes - Ie...Roeddwn i'n beco ei fod e'n llaesu dwylo ag yn teimlo bod ei fywyd e bach yn ddi-bwynt...Ond ers yr wythnos ddiwethaf, mae e'n llawn egni a brwdfrydedd unwaith eto...

Michelle - Excellent. Let's hope that the business is a roaring success...

Agnes - Gyda Jac wrth y llyw - dw i'n siwr bydd e

Catchphrase Ysbyty Brynaber: Episode 307

Agnes is concerned that Brian hasn't been informed about Jac's plans. Little does she know that Brian is fully aware of the plans and intends to oppose them officially. But he has yet another plan up his sleeve.

Geirfa

| | |
|-----------------|----------------------------------|
| egni | energy |
| brwdfrydedd | enthusiasm |
| atgoffa | to remind |
| arfer | to use, to be accustomed |
| cyndyn | reluctant |
| Y Cyngor | The Council |
| ffodus | fortunate |
| anhygoel | fantastic |
| gesio | to guess |
| dros ben | exceptionally |
| malio | to care |
| o ddifrif | seriously |
| tu chwith allan | inside out |
| effaith | an effect |
| ar y naw | extremely; literally on the nine |

Golygfa 1

Brian - Pryd? Ddoe...?

Michelle - Ie...Yn y pwll nofio...

Brian - ...a beth arall wnaeth Agnes ddweud wrthy chdi?

Michelle - Dweud bod Jac fel...let me see...Let me try and get this right...Dywedodd hi bod Jac yn llawn egni a brwdfrydedd unwaith eto...

Brian - yn llawn egni a brwdfrydedd unwaith eto, myn uffern i!

Michelle - Dyna beth ddywedodd hi...

Brian - Y diawl! Betiaf i ei fod o!

Michelle - I'm only repeating what she said to me...Achos roedd hi'n poeni ei fod e'n llaesu dwylo...

Brian - Lle ddiawl dysgais di i ddweud hynny?

Michelle - Paid â chwerthin...

Brian - Sori...Na, ddylsw'n i ddim...Ond roedd jest dy glywed chdi'n dweud hynny rwan...llaesu dwylo!

Michelle - Beth?

Brian - Fy atgoffa fi o fy nhad...Dyna fyddai fy nhad yn arfer ei ddweud wrthyf i ers talwm...pan oeddwn i'n gyndyn o wneud fy ngwaith cartref...Mi fyddai fo yn wastad yn dweud,'Brian - ddaw yna ddim byd ohonoch chdi, os wyt ti'n mynnu llaesu dwylo.'

Michelle - Good meaty saying 'llaesu dwylo'...I love it.

Brian - Ydy, mae o...

Michelle - Drinc arall?

Brian - Na. Gwell imi beidio. Dydw i ddim eisiau llaesu dwylo, achos mae gen i lot o bethau i'w gwneud y prynhawn yma...

Michelle - Pethau fel beth?

Brian - Mynd draw i'r Cyngor...

Michelle - Pam? Beth wyt ti'n treal ei wneud?

Brian - Stopio Jac rhag agor garej dros y ffordd i fy ngarej i.

Golygfa 2

Agnes - Am beth wyt ti'n meddwl?
Jac - Pa mor...pa mor...beth ydy'r term Cymraeg am fortunate?
Agnes - Ffodus. Dyna beth yw fortunate....
Jac - Ie. Dyna ti. Dw i'n cofio rwan...Dw i'n meddwl pa mor ffodus dw i.
Agnes - Pam wyt ti'n teimlo'n ffodus ynte? Am fod prynu'r garej a'r shop wedi bod yn broses mor hawdd?
Jac - Ie. Hynny...
Agnes - Gwnaeth yr holl beth ddigwydd yn glou iawn - yn dofe?
Jac - Do...
Agnes - Anhygoel o glou a dweud y gwir...
Jac - Am y rheswm syml fod y boi oedd yn gwerthu eisiau gwneud hynny mor ffast ag oedd o'n gallu...
Jac - Ond ddim dyna'r unig reswm dw i'n teimlo'n ffodus...
Agnes - Beth yw'r rheswm arall ynte?
Jac - Elli di ddim gesio?
Agnes - Na - beth?
Jac - Fy mod i'n byw efo chdi.
Agnes - Dw i'n falch fy mod i'n byw gyda ti hefyd.
Jac - Rydyn ni ein dau yn ffodus felly?
Agnes - Ydyn. Rydyn ni'n dou yn ffodus dros ben. Ond mae un peth yn fy mecso fi hefyd...
Jac - Beth?
Agnes - Pryd wyt ti'n bwriadu dweud wrth Brian 'bytu'r garej?

Golygfa 3

Wendy - Beth wyt ti'n mynd i'w wneud ynte?
Brian - Dyna'r peth...Dydw i ddim yn gwybod...
Wendy - But you can't let Jac Whelan get away with something like this...It's serious.
Brian - Does dim eisiau i chdi na neb arall ddweud wrthyf i pa mor ddifrifol ydy hyn...Mae hyn yn beth hollol ofnadwy i ddigwydd...
Wendy - Yeah...After you sweated all those years to put a business together, suddenly he comes along and pulls the rug from right under your feet...So fe'n deg!
Brian - Ers pryd mae o wedi malio am fod yn deg erioed?
Wendy - Bydd rhaid iti siarad gyda fe...
Brian - A dweud beth?
Wendy - Dweud wrtho fe dy fod ti'n really angry...
Brian - Ac wedyn beth?
Wendy - Gofyn iddo fe ddechrau'i fusnes yn rhywle arall...
Brian - Ac wyt ti'n meddwl - yn meddwl o ddifrif - am un eiliad rwan y gwneith Jac Whelan wrando arnaf i?
Wendy - It's worth a try...
Brian - Na. Does dim pwynt...
Wendy - Sut wyt ti'n gwybod?
Brian - Achos fy mod i'n gwybod. Achos fy mod i'n adnabod Jac tu chwith allan - a dw i'n gwybod na cheith beth bynnag ddywedaf i wrtho fo ddim effaith o gwbl...
Wendy - Wel, beth ynte? Beth arall wyt ti'n mynd i'w wneud ynte?
Brian - Dydw i ddim yn gwybod eto. Beth bynnag fydd o...Mi fydd rhaid iddo fo fod yn syniad clyfar ar y naw i roi stop ar Jac Whelan.

Catchphrase Ysbyty Brynaber: Episode 308

Brian and Jac come to blows in the Yacht Club, when Brian admits that he knows all about Jac's rival plans.

A harrassed Wendy bumps into Agnes in the supermarket and accuses her and Jac of trying to sabotage Brian's livelihood.

Geirfa

| | |
|--------------|--|
| twpsen | a fool |
| gwerthwr tai | an estate agents; literally a seller of houses |
| meiddio | to dare |
| cau dy geg | shut up! |
| gwarchod | to baby-sit |
| digonedd | sufficient |
| di-egwyddor | unprincipled |
| rhagrithiwr | a hypocrite |
| celwyddgi | a liar |

Golygfa 1

Wendy - Vicky! Stopia hi nawr! Rho'r pot olives yna yn ôl ar y silff. Victoria - sa i'n gofyn iti eto...Nawr rho fe yn ôl. Nawr you've gone and done it! Edrycha beth wyt ti wedi ei wneud! Twpsen! Reit. We're moving away - right away from this mess...Beth oedd y peth diwethaf ddywedais i wrthyt ti? I beidio â chodi pethau off y silffoedd. Nawr drycha beth wnest ti. Gad i bethau fod a dysga dy wers, wnei di? Wel...blow me down! Edrychwch pwy sy'n sefyll draw fan acw, blant...Y witsh ei hunan...Beth am inni fynd i ddweud helo wrthi? Sister Rees...We must stop meeting like this....

Agnes - Wendy...

Wendy - Clywed dy fod ti'n mynd lan yn y byd...

Agnes - Lan yn y byd? Beth? Sa i cweit yn deall...

Wendy - You and that slimy robber baron you're shacking up with...Dw i'n clywed eich bod chi'n mynd i ddechrau busnes...

Agnes - Sut yn y byd mawr glywsoch chi?

Wendy - Dim ots 'bytu hynny...

Agnes - Pwy ddywedodd?

Wendy - It's true isn't it?

Agnes - Sut glywsoch chi fod Jac yn mynd i ddechrau busnes? Trwy'r gwerthwr tai? Yr estate agents, ie?

Wendy - Shut up, woman!

Agnes - Paid ti â meiddio dweud wrthyf i am gau fy ngheg byth! Wyt ti'n clywed?

Wendy - You don't scare me!

Agnes - Cer o fy ngolwg i wnei di?

Wendy - Your slimy one-legged robber baron's out to destroy Brian, isn't he? 'Cause you're out to destroy me! I've seen right through you from the start, lady!

Agnes - Y cyfan mae Jac yn ei wneud yw dechrau busnes! Nawr mas o fy ffordd i, sa i'n mynd i ofyn eto! Mas o fy ffordd i!

Wendy - You think you've won - but let me tell you: this war has only just begun!

Golygfa 2

Jac - ...diolch am - beth yw'r term Cymraeg am baby sit hefyd? It's gone clean out of my mind, for some bizzare reason...

Michelle - Gwarchod.

Jac - Ie. Gwarchod. Diolch am warchod.

Michelle - Does dim eisiau diolch...No need to, 'cause your partner's thanked me already...

Jac - Fuaset ti'n fodlon gwarchod rywbyrd eto?

Michelle - If you're desperate...

Jac - Allaf i gael 'drink' arall, plis?

Michelle - Sut mae'r busnes yn mynd?

Jac - Wel...Mae pob dim yn ei le. So....

Michelle - Hia, Brian...

Brian - S'mai?

Jac - Brian, mêt. Beth allaf i ei gael i ti? Wrthi'n codi peint ydw i rwan, edrycha...Beth gymeri di? Your word's my command...

Brian - Cadw dy blydi ddiad

Jac - Diolch, Michelle...

Michelle - Dwy bunt a thri deg ceiniog, plis.

Jac - Brian? Wyt ti'n siwr dy fod ti ddim eisiau 'drink' bach?

Brian - Buasai'n well gen i yfed peint o arsenic na derbyn diod am ddim gennyti, y mochyn!

Jac - Dydw i ddim yn 'thick'...A dw i'n rhoi 2 + 2 at ei gilydd yn fy mhen...A dw i'n sylweddoli dy fod ti wedi clywed gan rywun beth rydw i wedi ei wneud...Ydw i'n iawn, mêt?

Brian - Paid â "mêtio" i! Dwyt ti ddim yn fêt i mi!

Jac - Paid â dechrau gweld bai arnaf i...

Brian - Y dyn sy'n mynd i fod yn gystadleuaeth imi? Y dyn sy'n mynd i ddwyn fy musnes i i gyd?

Jac - Mae digonedd o waith inni i gyd...

Brian - Mewn dinas fawr efallai...Ond ddim mewn tref fach fel hon...

Jac - Brian, gwranda...

Brian - Bydd dawel wnei di?

Michelle - Brian, plis - don't shout!

Brian - Wyt ti'n gwybod beth wyt ti, Jac? Diawl di-egwyddor. Fuaswn i byth yn gwneud rhywbeth fel hyn i chdi!

Jac - Na fuaset ti?

Brian - Na.

Jac - Rwy't'n rhagrithiwr. Ac rwy't'n gelwyddgi.

Brian - Ac rwy't'n mynd i droi drosodd....

Michelle - Brian! What are you doing? For God's sake!

Brian - Dydy hynny ond megis dechrau, Jac! Wyt ti'n clywed?

Synopsis

Brian tells a disbelieving Wendy the devastating news of Jac's new garage.

Brian's still in a foul mood when he meets Jac in the Yacht Club and refuses his offer of a drink.

Test yourself

1. To which garment do you refer, when you say someone is talking nonsense?
 - (a) siarad drwy dy gap
 - (b) siarad drwy dy faneg
 - (c) **siarad drwy dy het**

2. How do you say: 'by the way'?
 - (a) gyda choes
 - (b) **gyda llaw**
 - (c) gyda throed

3. If you were wishing someone a good time, what would you say?
 - (a) Gobeithio cei di adeg da.
 - (b) Gobeithio cei di bryd da.
 - (c) **Gobeithio cei di amser da.**

4. When you idle your time away, do you?
 - (a) llaesu llygaid
 - (b) **llaesu dwylo**
 - (c) llaesu traed

5. Fill in the blank with one of the words below: *Beth yw ----- dy gar newydd? Glas neu oren?*
 - (a) llyw
 - (b) **lliw**
 - (c) llw

6. Which of the following expressions is INCORRECT for saying 'terribly late'?
 - (a) hwyr ar y naw
 - (b) **hwyr ar y deg**
 - (c) ofnadwy o hwyr